

Lleoliad

Mae 7 Ffordd Abergele (Adeilad Longman) ar y brif ffordd trwy Fae Colwyn, oddi ar Ffordd yr Orsaf, sef lleoliad marchnad Artisan a marchnad wythnosol Bae Colwyn. Mae 7 Ffordd Abergele gyferbyn â Spar, Subway, KFC ac yn agos at nifer o fanciau, caffis, siopau a gwasanaethau proffesiynol, ac mae modd cerdded yno o brif swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar Ffordd Coed Pella. Mae mewn safle amlwg o ran masnachu, mae modd i'r holl draffig sy'n pasio ar droed neu mewn cerbydau ei weld yn dda, ac mae'n agos at orsaf drenau Bae Colwyn, ar y prif lwybr bysiau trwy'r dref, ac mae lleoedd parcio i'r cyhoedd yn y cefn ar Ivy Street.

Cyfle

Mae'r Awdurdod yn cynnig yr adeilad cyfan trwy brydles FRI am o leiaf 5 mlynedd. Mae hwn yn gyfle unigryw i ddefnyddio'r adeilad unigryw hwn yng nghanol Bae Colwyn.



Iw Osod (The Longmans Building)


7 Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7RS

Disgrifiad

Mae 7 Ffordd Abergele yn adeilad rhestredig Gradd II, a ddyluniwyd gan y pensaer lleol enwog, Sidney Colwyn Foulkes. Credwyd bod yr adeilad wedi'i adeiladu'n wreiddiol fel siop lyfrau ar gyfer cwmni cyhoeddi / gwerthu llyfrau Longman, ar ddechrau'r 1930au. Yn ddiweddar, mae wedi'i ailwampio'n helaeth y tu mewn a'r tu allan, ac mae nifer o'i nodweddion pensaernïol gwreiddiol i'w gweld, fel ffenestri portwll, goleuadau to gwydr crwm a nodweddion art deco.


Mae'r adeilad yn cynnwys: Lobi mynediad oddi ar y brif ffordd, man gweithio agored a thoiled ar y llawr gwaelod. Storfa, cwpwrdd cyfleustodau, ardal gegin i staff a thoiled arall ar lefel yr islawr. Mae'r llawr cyntaf yn cynnwys man gweithio agored, dwy ystafell ymneilltuo ac ardal gegin gydag ardal loceri, a dau doiled arall. Mae'r llawr uchaf yn cynnwys rhagor o fannau gweithio gyda golygfeydd o'r môr. Mae ardaloedd y llawr wedi'u nodi dros y dudalen.







Basement (Size)

First Floor (110m²)



Ground Floor (210m²)

Second Floor (30m²)



Telerau Prydles

Mae'r Cyngor yn chwilio am geisiadau i brydlesu'r adeilad am brydles FRI am o leiaf 5 mlynedd. Y tenant fydd yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio, cynnal a chadw, yswiriant a'r holl alldaliadau eraill sy'n ymwneud â'r adeilad. Mae'r Cyngor yn croesawu cynigion o ran y rhent. Mae ffurflenni cais a gwybodaeth berthnasol arall ar gael ar gais.

Defnydd Cynllunio

Y caniatâd cynllunio presennol a ganiatawyd yw Swyddfeydd. Byddai defnydd arall yn cael ei ystyried yn amodol ar sicrhau pob caniatâd ac ymgynghoriad angenrheidiol.

Gweld yr Eiddo

Drwy apwyntiad yn unig.

CBSC Ystadau a Rheoli Asedau

Cyswllt Lydia Johnson

Rhif ffôn 01492 574 570

E-bost lydia.johnson@conwy.gov.uk

Disclaimer

Mae'r data a ddarperir at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei darparu yn ddidwyll, fodd bynnag, nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantu o unrhyw fath, mynegi neu awgrymu ynglŷn â chywirdeb, digonolrwydd, dilysrwydd, dibynadwyedd, argaeledd neu gyflawnrwydd y wybodaeth. Ni fyddwn yn derbyn atebolrwydd o dan unrhyw amgylchiadau i chi am unrhyw golled neu ddifrod o unrhyw fath o ganlyniad i ddefnydd neu ddibynnu ar unrhyw wybodaeth a ddarparwyd.

